




Strategaeth Anabledd Dysgu

Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2024 a 2029



Mae'r llyfryn yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Strategaeth Anabledd Dysgu 2024 - 2029'.

Ionawr 2024


Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 31**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (PRhGM)**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

E-bost: west.glamorgan@swansea.gov.uk

Ffôn: 01792 633 805



Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#).


Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma.....	2
Amdanom ni a'r llyfryn yma	4
Am bobl ag anableddau dysgu	9
Gwasanaethau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot...	13
Mae beth mae pobl yn ei ddweud yn bwysig	14
Sut fyddwn ni yn cyflawni ein hamcanion.....	29
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?....	30
Geiriau Anodd.....	31

Amdanom ni a'r llyfryn yma



Ni ydy **Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (PRhGM)**.



Rydyn ni yn dod o **Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot**.



Rydyn ni yn edrych ar faterion iechyd a llesiant yn yr ardaloedd yma.

Rydyn ni yn grŵp o bobl a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd o:

- Cyngorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
- Y Bwrdd Iechyd
- Elusennau
- Pobl â phrofiad bywyd





Fe wnaethon ni sefydlu'r **Bwrdd Rhaglen Llesiant ac Anabledd Dysgu** yn 2021.



Nod y Bwrdd ydy gwella gwasanaethau anabledd dysgu yn ein hardal.



Mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- Pobl â phrofiad bywyd
- Gweithwyr proffesiynol o'r bwrdd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.
- Elusennau



Mae'r Bwrdd wedi gwneud **cynllun 5 mlynedd**.

Mae'r cynllun yn edrych ar:



- Anghenion oedolion ag anabledd dysgu.



- Beth sydd angen i wasanaethau ei wneud i ateb yr anghenion hynny dros y 5 mlynedd nesaf.




Rydyn ni'n credu y dylai pobl ag anableddau dysgu gael y cymorth cywir i wneud eu dewisiadau eu hunain.



Fe ddylen nhw fod yn gallu byw bywyd hapus ac iach.




Rhaid iddyn nhw gael y cyfle i ddysgu a gweithio.



Mae'r llyfryn yma am y cynllun 5 mlynedd.



Fe wnaeth **Eiriolaeth Eich Llais** weithio gyda phobl ag anableddau dysgu i ddarganfod beth roedden nhw'n meddwl oedd yn bwysig i'w roi yn y cynllun 5 mlynedd yma.



Yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu **Eiriolaeth Eich Llais**, fe wnaethon ni gael digwyddiad anabledd dysgu rhanbarthol.



Roedd y digwyddiad ar 4 Mai 2023 o'r enw **May Your Voice Be with You**.



Fe ddaeth dros 100 o bobl i'r digwyddiad. Roedd hyn yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, gofaldwyr/rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Nod y digwyddiad oedd:



- Datblygu'r 7 prif faes rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw. Roedd y meysydd yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi'i ddweud sy'n bwysig iddyn nhw.



- Datblygu'r cynllun 5 mlynedd. Cynllunio sut a phryd fydd pob thema yn cael ei gweithredu.



Fe wnaeth fforwm o'r enw **Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol** ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc gael ei lansio yn y digwyddiad.



Fe fydd y **Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu** yn gweithio gyda'r **Bwrdd Rhaglen Llesiant ac Anabledd Dysgu**.

Roedd aelodau'r fforwm hefyd yn helpu i ddatblygu:



- cynllun 5 mlynedd
- blaenoriaethau
- cynllun gweithredu
- rhoi enghreifftiau o sut rydyn ni'n gallu gwneud pethau'n well ar gyfer pob thema.

Am bobl ag anableddau dysgu



Rydyn ni wedi defnyddio'r **model cymdeithasol** o ddiffiniadau anabledd yn ein cynllun.



Mae'r model cymdeithasol yn dweud bod gwahaniaeth rhwng **nam** ac **anabledd**.



Nam ydy anaf, salwch neu gyflwr sy'n effeithio ar y ffordd mae eich corff neu'ch meddwl yn gweithio.



Dydy pobl ddim wedi cael eu hanablu gan eu **nam**. Maen nhw yn cael eu hanablu gan **rwystrau** mewn cymdeithas.

Mae **rhwystrau** yn gallu bod yn bethau fel:



- Agweddau tuag at beth rydych chi'n gallu a dim yn gallu ei wneud, oherwydd eich **nam**.



- Y ffordd y mae pethau'n cael eu trefnu. Er enghraifft, ffurflen mae'n rhaid i chi ei llenwi sy'n anodd ei deall.

- Adeiladau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n gallu cerdded yn unig.



Mae angen i'r gymdeithas feddwl am **bawb**. Nid dim ond pobl alluog.



Tra bod y model meddygol yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd eu **nam**.



Mae llawer o bethau eraill yn gallu effeithio ar bobl ag anableddau dysgu.

Er enghraifft:



- Mae pobl ag anableddau dysgu yn fwy tebygol o gael problemau iechyd
- Maen nhw yn llai tebygol o gael swydd neu ddigon o arian



- Tai
- Unigrwydd, ynysu cymdeithasol a Covid 19



- Cethu defnyddio'r rhynggrwyd, cyfrifiaduron a ffonau i gael gwybodaeth



- Cludiant
- Addysg
- Eiriolaeth - eiriolaeth ydy pan fydd rhywun yn eich helpu ac yn siarad drosoch chi



- Pontio i fod yn oedolyn. Mae pontio yn gyfnod o newid mawr fel dechrau neu adael yr ysgol



Rydyn ni'n credu bod tua 2000 o oedolion ag anabledd dysgu yn ein hardal. Ond mae'n bosibl ei fod yn llawer uwch.

Mae rhai ffigurau yn awgrymu ei fod yn gallu bod yn fwy na 7000.



Mae **Mencap** yn dweud nad ydy gwasanaethau yn gwybod am bobl ag anableddau dysgu. Felly, mae'r nifer yn gallu bod yn llawer uwch eto.

Gwasanaethau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot



Mae pobl ag anableddau dysgu yn defnyddio llawer o wasanaethau yn ein hardal.

Er enghraifft, gwasanaethau:

- Gwasanaethau dydd
- Byw â chymorth
- Swyddi a hyfforddiant
- Iechyd a llesiant
- Gofal **seibiant**



Mae **seibiant** yn meddwl cael egwyl rhag gwneud rhywbeth sydd yn gallu bod yn anodd neu'n flinedig. Mae egwyl byr yn rhywbeth fel seibiant ac mae'n gallu bod yn wyliau.

- Taliad uniongyrchol
- Cludiant



Mae'r gwasanaethau'n cael eu rhedeg gan wahanol sefydliadau. Fel cyngor, bwrdd iechyd, elusennau, gwasanaethau preifat.

Mae beth mae pobl yn ei ddweud yn bwysig



Mae ein cynllun 5 mlynedd yn seiliedig ar beth mae pobl wedi'i ddweud sy'n bwysig iddyn nhw.



Dyma'r 7 prif faes rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw dros y 5 mlynedd nesaf:

1. Cludiant

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni

Fe wnaeth pobl ddweud eu bod eisiau i drafnidiaeth fod:



- mwy diogel
- haws i'w defnyddio,
- ac yn rhedeg yn fwy aml.



Mae pobl yn meddwl bod bysiau a threnau'n anodd eu defnyddio. Er enghraifft, mae'n anodd deall amserlenni.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda chwmnïau trafniadaeth.

Rydyn ni eisïau eu helpu i ddeall mwy am bobl ag anableddau dysgu. Siarad am wneud pethau'n hawdd eu deall.



Fe fyddwn ni yn ceisio dod o hyd i gludiant cost isel i bobl ag anableddau dysgu.



Fe fyddwn ni yn gwneud hyn rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024.

2. Cael y gofal a'r cymorth cywir

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaeth pobl ddweud eu bod eisiau gofal a chefnogaeth mwy hyblyg.

Mae hyn yn meddwl gofal a chymorth sy'n gallu newid yn hawdd i ateb eich anghenion.



Mae pobl eisiau cael mwy o lais dros eu gofal gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol.



Fe wnaeth pobl ddweud eu bod wedi cael profiadau gwael o iechyd a gofal cymdeithasol.



Maen nhw'n teimlo nad ydy gwasanaethau'n cael eu trefnu o amgylch eu hanghenion.





Does dim digon o wasanaethau. Dydy'r staff ddim wedi cael digon o hyfforddiant.



Does dim digon o gefnogaeth iechyd a llesiant.



Mae pobl wedi ei chael hi'n anodd cael cymorth iechyd meddwl.



Roedd gan bobl broblemau eraill hefyd.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni yn cael mwy o wybodaeth am bobl ag anableddau dysgu yn ein hardal. Darganfod beth maen nhw ei angen.



Fe fyddwn ni yn cynnwys pobl yn eu cynlluniau cymorth. A cheisio cael cynlluniau cymorth i ganolbwyntio ar eu cryfderau.



Fe fyddwn ni yn gweithio tuag at gysylltu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd yn well.



Fe fydd gennym wybodaeth hawdd ei ddeall.



Fe fyddwn ni yn helpu pobl ag anableddau dysgu i ddarganfod mwy am **archwiliadau iechyd blynyddol**.




Mae **archwiliadau iechyd blynyddol** yn archwiliadau iechyd mae pobl ag anableddau dysgu yn gallu eu cael bob blwyddyn. Maen nhw am ddim. Maen nhw yn helpu pobl ag anabledd dysgu i ofalu am eu hiechyd.



Fe fyddwn ni yn helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod o hyd i gymorth iechyd meddwl.



Fe fyddwn ni yn chwilio am gyfleoedd i wella ffordd iach o fyw yn yr ardal.



Fe fyddwn ni yn gwneud cynlluniau am gefnogaeth **gyda** phobl.



Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa wasanaethau **eiriolaeth** sydd yn yr ardal.

Eiriolaeth ydy pan fydd rhywun yn codi llais ar eich rhan. Neu yn eich cefnogi i ddweud beth rydych chi'n feddwl.

Mehefin

2024

Gorffennaf

2025

Fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma rhwng Mehefin 2024 a Gorffennaf 2025.

3. Fy nghymuned

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni



Mae pobl eisiau bod yn rhan o'u cymuned a theimlo'n ddiogel.



Fe wnaeth pobl ag anableddau dysgu ddweud eu bod yn aml yn teimlo ar wahân i'w cymuned.



Yn aml, dydyn nhw ddim yn gallu cael mynediad at wahanol weithgareddau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni yn edrych ar wasanaethau a lle mae'r bylchau. Yna fe fyddwn ni yn gweld sut rydyn ni'n gallu llenwi'r bylchau yma.

Fe fyddwn ni yn ceisio cael cyllid i sefydlu:



- grwpiau cymdeithasol
- a grwpiau **cymorth cymheiriaid**.



Cymorth cymheiriaid ydy pan fydd pobl sydd â phrofiadau tebyg yn cefnogi ei gilydd.

Fe fyddwn ni yn gweld sut rydyn ni'n gallu cefnogi pobl i ddefnyddio **Taliadau Uniongyrchol**.



Taliadau Uniongyrchol ydy pan fyddwch chi yn cael arian yn lle gwasanaeth. Rydych chi yn defnyddio'r arian i ddewis a thalu am eich gofal a'ch cefnogaeth eich hun.

Gorffennaf

2025

Mehefin

2026

Fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026.

4. Dysgu gydol oes

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni



Mae pobl eisiau mwy o gyfleoedd i ddysgu a hyfforddi.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni yn ystyried hyfforddiant ar gyfer pethau fel:



- coginio



- sgiliau cyfrifiaduro



- rheoli arian
- a phethau eraill



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda sefydliadau dysgu. Fe fyddwn ni yn dod o hyd i fwy o wybodaeth am ddysgu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.



Fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma rhwng mis Gorffennaf 2026 a mis Mehefin 2027.

5. Swyddi a gwirfoddoli

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni



Mae pobl eisiau mwy o gyfleoedd a chefnogaeth i ddod o hyd i swydd.



Mae pobl yn teimlo nad oes digon o gyfleoedd iddyn nhw.



Maen nhw'n teimlo bod pobl ond yn gweld eu hanabledd.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni yn edrych ar gyfleoedd i weithio a gwirfoddoli i bobl ag anableddau dysgu.



Fe fyddwn ni yn edrych ar sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth yn yr ardal.



Fe fyddwn ni yn gofyn i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan mewn cynlluniau am wirfoddoli.

Gorffennaf

2027

Mehefin

2028

Fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma rhwng mis Gorffennaf 2027 a mis Mehefin 2028.

6. Fy nghartref

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaeth pobl ddweud eu bod eisiau mwy o ddewis am ble maen nhw'n byw.



Maen nhw eisiau teimlo'n ddiogel, yn annibynnol ac yn agos at gefnogaeth.



Does dim llawer o opsiynau tai yn agos at gartref. Ac mae yna restrau aros hir.

Beth fyddwn ni'n ei wneud




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda darparwyr tai. Fe fyddwn ni yn edrych ar fwy o dai sy'n ateb anghenion pobl.



Fe fyddwn ni yn edrych ar hyfforddiant staff ar:

- anabledau dysgu
- iechyd meddwl
- a materion eraill



Fe fyddwn ni yn gwneud cynlluniau gyda phobl am dai.



Fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma rhwng mis Gorffennaf 2028 a mis Mehefin 2029.

7. Gwneud fy mhenderfyniadau fy hun a dweud beth rydw i'n feddwl

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni

Mae pobl eisiau:



- cael gwybod beth sy'n digwydd

- cael dweud eu dweud



- a gwneud dewisiadau am eu bywydau.

Mae pobl ag anableddau dysgu yn teimlo nad oes ganddyn nhw:



- digon o ddewis am eu bywydau

- neu'r gefnogaeth i wneud dewisiadau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni yn gweithio i wneud newidiadau fel bod:



- Gan bobl ag anableddau dysgu lais yn y materion sy'n effeithio arnyn nhw.



- Mwy o gyfleoedd i bobl weithio'n gyfartal ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.



Fe fyddwn ni yn gwneud y gwaith yma drwy gydol y cynllun 5 mlynedd.

Sut fyddwn ni yn cyflawni ein hamcanion



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, rhieni a gofalwyr ar gynlluniau gweithredu.



Fe fydd cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r 7 maes yn y cynllun yma.



Mae'r cynllun yma ar gyfer ein gwaith dros y 5 mlynedd nesaf. Fe fyddwn ni yn edrych i weld sut mae pethau'n mynd yn aml.



Rydyn ni eisiau i bawb ag anabledd dysgu gael mynediad cyfartal at wasanaethau da yn yr ardal.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?



Fe fyddwn ni yn darganfod beth mae pobl yn ei feddwl. Er enghraifft, drwy arolygon a grwpiau.



Bob blwyddyn fe fyddwn ni yn siarad â'r **Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu** i ddarganfod beth maen nhw'n feddwl.



Fe fyddwn ni yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth pan fydd pobl ag anableddau dysgu yn dweud bod eu bywydau wedi gwella.

Geiriau Anodd

Archwiliadau iechyd blynyddol

Mae archwiliadau iechyd blynyddol yn archwiliadau iechyd mae pobl ag anableddau dysgu yn gallu eu cael bob blwyddyn. Maen nhw am ddim. Maen nhw yn helpu pobl ag anabledd dysgu i ofalu am eu hiechyd.

Cefnogaeth cymheiriaid

Cymorth cymheiriaid ydy pan fydd pobl sydd â phrofiadau tebyg yn cefnogi ei gilydd.

Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan fydd rhywun yn codi llais ar eich rhan. Neu yn eich cefnogi i ddweud beth rydych chi'n feddwl.

Seibiant

Mae seibiant yn meddwl cael egwyl rhag gwneud rhywbeth sydd yn gallu bod yn anodd neu'n flinedig. Mae egwyl byr yn rhywbeth fel seibiant ac mae'n gallu bod yn wyliau.

Taliadau Uniongyrchol

Taliadau Uniongyrchol ydy pan fyddwch chi yn cael arian yn lle gwasanaeth. Rydych chi yn defnyddio'r arian i ddewis a thalu am eich gofal a'ch cefnogaeth eich hun.

